Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod:** **Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu**
**Lleoliad:** **Pencadlys yr Heddlu**
**Dyddiad:** **18 Ionawr 2016**
**Amser:** **13:00 – 15:10**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mr Tim Burton, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DGHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Perfformiad, SCHTh (SR)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff i'r Prif Gwnstabl (MMS)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/12/2015 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | Cynnydd: |
| **PAB 291** | **Yr Heddlu i egluro pwy sy'n cyflwyno hyfforddiant troseddau casineb i swyddogion a chynnwys yr hyfforddiant hwnnw** | **Cwblhawyd** |
| **PAB 292** | **Yr Heddlu i rannu ymchwil ar Drais ar Sail Anrhydedd â'r CHTh (ymchwil i gynnwys data gan bartneriaid a phroffil testun)** | **Ar waith – ar gael erbyn diwedd yr wythnos** |

Agorodd y CHTh y cyfarfod, gan groesawu pawb i Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu cyntaf 2016.

**Cofnodion y Cyfarfod Atebolrwydd a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2015 a Materion yn Codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir, ac nid oedd materion yn codi. Roedd Adroddiadau Monitro Perfformiad SCHTh o fis Tachwedd a mis Rhagfyr wedi'u diweddaru ag atebion y PG a chymeradwyodd yr aelodau eu cyhoeddi.

**Adroddiad Atebolrwydd yr Heddlu ar Flaenoriaeth 6 – Gwario'n Ddoeth**

Gosododd y PG y cyd-destun ar gyfer yr adroddiad, gan ddwyn sylw CHTh i broffiliau gwerth am arian AHEM fel cefndir i sefyllfa ariannol yr heddlu. Dywedodd y PG bod HDP yn gwario mwy ar blismona rheng flaen a llai ar swyddogaethau cymorth busnes nag

unrhyw heddlu arall yng Nghymru a Lloegr. Roedd y PG yn fodlon â'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r nod o gynyddu plismona rheng flaen gweledol. Cyflwynodd y CC yr adroddiad, gan dynnu sylw at y pwyntiau amlwg. Cydnabu a diolchodd CHTh yr Heddlu am eu gwaith o ran cyflawni mwy o swyddogion rheng flaen a llai o wariant ar swyddogaethau swyddfa gefn. Dywedodd y CHTh bod y cynllun Gwario'n Ddoeth yn cyflwyno negeseuon pwerus a chalonogol. Ystyriodd y CHTh bod y cyflawniad mwyaf trawiadol yn ymwneud â chynhyrchiant, yn arbennig y prosiect plismona symudol.

Holodd y CHTh ynghylch y proffil galw - yn benodol, sut y mae galw ar yr heddlu'n newid. Ymatebodd y PG gan ddweud bod proffil galw'n cael ei ddefnyddio fel arf rhagfynegi i gynnal cynllunio gweithredol, a rhoddodd ddwy enghraifft o hyn. Mae'r galwadau cynyddol am wasanaeth gan ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cael eu trin drwy'r cynllun brysbennu iechyd meddwl a thrwy dreialu presenoldeb heddlu yn ysbyty Glangwili. Nid oedd asesiad o effeithiolrwydd cynllun peilot Glangwili ar gael eto, ond byddai'n cael ei rannu maes o law. Cytunodd y PG i rannu'r proffil galw â'r CHTh.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i rannu'r proffil galw, ac asesiad o'r effaith ar gamau gweithredu a gymerwyd i leihau gofynion a nodwyd, â'r CHTh erbyn diwedd Ionawr**

Eglurodd y CHTh gais blaenorol i amlinellu'r arbedion pennawd posibl a ddisgwylir drwy gydweithio posibl o ran arfau saethu. Hefyd, nododd y CHTh na fyddai'r ddarpariaeth swyddogion heddlu ychwanegol a drefnwyd yn cael ei ganiatáu hyd nes y bydd canlyniadau'r fformiwla ariannu'n hysbys.

Ceisiodd y CHTh eglurhad o ran sut y gweithredir cynlluniau Gwario'n Ddoeth. Esboniodd y PG bod y DBG yn adrodd i'r PG, gyda thimoedd prosiect ar gyfer pob maes gwario'n ddoeth yn adrodd i'r DBG. Rhoddir cyfle i gomanderiaid lleol gyfrannu at gynlluniau gweithredol yn rheolaidd, a gyfrannodd at amcangyfrifon a wnaed o fewn y cynllun ariannol. Cytunwyd y byddai'r cynlluniau prosiect yn cael eu rhannu â'r CHTh.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi cynlluniau prosiectau gweithredol manwl i'r CHTh sy'n tanategu'r cynllun arbedion Gwario'n Ddoeth erbyn diwedd Ionawr**

Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad ar gynnydd yr adolygiad o ddarpariaeth dalfeydd. Dywedodd y PG y byddai daearyddiaeth HDP yn arwain at fwy o wariant ar ddalfeydd nag unrhyw heddlu arall â galw tebyg. Adolygwyd dalfa Aberhonddu ac ystyriwyd bod angen ei fod ar gael yn gyson er nad oedd yn cael ei ddefnyddio o hyd. Yna, estynnwyd yr adolygiad i ddarpariaeth dalfeydd ledled yr ardal heddlu. Roedd asesiadau cychwynnol yn ystyried bod Aberystwyth yn briodol ar gyfer angen, gydag Aberteifi fel dalfa wrth gefn a dalfa gorlif ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro. Ystyriwyd fod y Drenewydd yn briodol ac roedd yn parhau'n ddalfa brysur oherwydd ei bod yn gwasanaethu ardal fawr. Hefyd, ystyriwyd bod Hwlffordd yn addas ar gyfer anghenion. Roedd De Powys dal yn cael ei adolygu, gyda chydweithio posibl yn cael ei archwilio ac wrth aros am gadarnhad o leoliad dalfa newydd Sir Gaerfyrddin. Dywedodd y PG y byddai'r adolygiad yn cael ei

gwblhau a chasgliadau'n cael eu gwneud erbyn diwedd Mawrth, sy'n alinio â'r cynlluniau ar gyfer darpariaeth Sir Gaerfyrddin.

**Cam Gweithredu: Adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad o ddalfeydd i'r Bwrdd Plismona erbyn diwedd Mawrth**

Cadarnhaodd y PSA gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ddarparu ar gyfer amgylchiadau nad oes modd eu gweld o £4.5 miliwn.

Gofynnodd y PSA pa un ai a oedd yr heddlu'n ystyried fod yr arbed targed ar daliadau goramser swyddogion a staff yn realistig a chyraeddadwy o ystyried y gorwariant cyfredol. Dywedodd y CC mai'r gorwariant ar oramser oedd £52,000 o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda pheth yn ymwneud â'r ŵyl banc ychwanegol dros y Nadolig a phrinder staff yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Cydnabu'r CC fod yr arbed arfaethedig o £600,000 yn heriol, fodd bynnag, mae'r heddlu wedi ymrwymo i gyflawni hyn. Roedd cynllun gweithredu mewn grym, gyda chyllidebau wedi'u darparu i Arolygwyr i reoli gofynion lleol ar gyfer goramser. Cafwyd trafodaeth, gyda'r PG yn egluro y byddai rotas yn cael eu rheoli'n briodol o fewn y patrymau sifft y cytunwyd arnynt yn flaenorol â'r Ffederasiwn Heddlu ar lefel leol. Dywedodd y PG bod y goramser hwn yn cael ei ystyried o fewn y gyllideb staff gyffredinol, gyda goramser yn caniatáu hyblygrwydd. Roedd angen sicrhau'n well bod pob ceiniog ar staffio'n cael ei gwario ar staffio er mwyn rheoli goramser yn fwy cadarn. Ceisiodd y CHTh eglurhad o'r mesur llwyddiant. Dywedodd y PG y byddai gostyngiad o ran gwariant ar oramser a chynnydd o ran gwariant ar swyddogion yn gweithio mewn cymunedau lle mae eu hangen un pennu llwyddiant rheoli cyllideb goramser. Gofynnodd y CHTh sut oedd problemau tanategol yn cael eu nodi a'u trin. Dywedodd y CC bod codio penodol o oramser yn caniatáu monitro cywir o'r rhesymau y mae goramser yn cael ei ganiatáu, sy'n helpu i yrru costau i lawr.

Holodd y PSA os yw'r cymarebau goruchwylio diwygiedig a fyddai'n arwain at ostyngiad o 23 rhingyll yn gyraeddadwy o fewn y proffil ymddeol disgwyliedig a phryd y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Dywedodd y CC fod hyn yn bosibl oherwydd disgwylir 9 gostyngiad ac roedd rhai swyddi gwag o ran swyddi dros dro y gellir eu gweithredu erbyn 1 Ebrill 2016. Byddai 3 swydd arall yn llai yn ystod 2016/17 ac 11 yn 2017/18. Tynnodd y PG sylw at rôl hollbwysig a hanfodol Rhingylliaid o fewn HDP fel y goruchwylwyr llinell gyntaf. Y bwriad oedd rhoi datblygiad arweinyddiaeth i Ringylliaid i arfer eu rolau'n fwy effeithiol. Byddai newid o ran sut y darperir goruchwyliaeth yn lleihau goruchwyliaeth seiber ac yn cynyddu goruchwylwyr arbenigol. Adleisiodd y CHTh bwyntiau'r PG gan gydnabod yr angen ar gyfer rhyddid mwy buddiol a phroffesiynol ar rengoedd is.

**Adroddiad Atebolrwydd SCHTh ar Flaenoriaeth 6**

Gan gydnabod y proffiliau gwerth am arian AHEM fel y'u hesboniwyd yn gynharach gan y PG, cyflwynodd y PSA yr adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol. Adroddwyd bod gwasanaethau wedi'u comisiynu'n cyflawni mwy am lai ac yn lleihau'r baich ar y

gwasanaeth heddlu. Mae'r llythyr sydd ynghlwm i'r adroddiad yn tynnu sylw at ddisgwyliadau CHTh mewn perthynas â chydweithio yn y dyfodol o ran rhai gwasanaethau penodol.

Dywedodd y CHTh fod y praesept arfaethedig yn nwylo'r Panel Heddlu a Throseddu ar hyn o bryd ar gyfer cymeradwyaeth. Ceisiodd y CHTh farn yr Heddlu ar y ffigurau a argymhellir o fewn yr adran o'r adroddiad sy'n ymwneud â gwasanaethau a gomisiynir. Dywedodd y CHTh ei fod wedi ymrwymo i'r gwasanaethau ond y byddai'n croesawu barn yr heddlu ar yr effaith a'r galw ar yr heddlu.

Cafwyd egwyl o bum munud.

**Adroddiad Monitro Perfformiad SCHTh**

Cyflwynodd SR yr adroddiad gan dynnu sylw'n fras at y pwyntiau allweddol cyn i'r CHTh holi'r cwestiynau yn yr adroddiad. Cafodd y rhain eu hateb a byddant yn cael eu cyhoeddi o fewn yr adroddiad a'u diweddaru ar wefan y Comisiynydd.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phrosesu data achosion seiberdroseddu. Holodd SR am statws cyfredol yr ôl-groniad, gyda'r PG yn cytuno i ddarparu data mewn perthynas â'r mater maes o law.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ddarparu atebion i gwestiynau mewn perthynas â maint a phatrymau seiberdroseddu a newid mewn achosion sy'n weddill erbyn diwedd yr wythnos**

Holodd y CHTh gwestiwn mewn perthynas â'r incwm a dderbynnir drwy droseddau traffig a'r oedi o ran derbyn yr arian. Cytunwyd y byddai dadansoddiad o'r incwm a dderbynnir a'r oedi a brofir yn cael ei ddarparu i SCHTh.

**Cam gweithredu: Darparu incwm a geir drwy erlyniadau troseddau traffig a arweinir gan yr heddlu a chasglu arian sy'n ddyledus i SCHTh erbyn diwedd Ionawr**

Dywedodd y PG nad oedd rheswm ariannol i beidio ag estyn y Cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder i unrhyw gymuned sy'n gofyn amdano ac sy'n awyddus i'w gael. Ar hyn o bryd, mae 6 cynllun yng Ngheredigion, 3 yn Sir Gaerfyrddin a 2 ym Mhowys a Sir Benfro. Dywedodd y CHTh y dylid annog cynlluniau pellach yn Sir Benfro, Powys a Sir Gaerfyrddin, a gofynnodd am restr o leoliadau cyfredol a lleoliadau phosibl.

**Cam Gweithredu: Darparu rhestr o leoliadau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned cyfredol a rhai posibl i'r CHTh erbyn diwedd Ionawr**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag arian dros ben y cynllun Y Ffordd i Ddiogelwch. Cytunwyd i ddarparu cynllun o gynlluniau arfaethedig ar gyfer defnyddio'r arian i SCHTh.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi cynllun manwl erbyn diwedd Ionawr o brosiectau Uned Plismona'r Ffyrdd ar gyfer gwario £181,000 o arian dros ben o ran y cynllun Y Ffordd i Ddiogelwch**

**Cwestiynau o gofnodion y Grŵp Prif Swyddogion**

Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod y PG yn gyfforddus â phresenoldeb AHEM yn y cyfarfod a pha un ai a fyddai'n digwydd yn rheolaidd. Dywedodd y PG bod y swyddog staff arweiniol wedi mynychu ar wahoddiad y PG, gan fod y swyddog arweiniol wedi nodi'r angen i fod yn fwy cyfarwydd â HDP. Cadarnhaodd y PG y byddai'n ddigwyddiad achlysurol ar wahoddiad y PG yn unig.

Cyfeiriodd DGHTh at yr Uned Gefnogaeth Wyddonol a ariennir gan y Swyddfa Gartref ac sy'n derbyn cyfraniad ariannol gan HDP. Gofynnodd y DGHTh os disgwylir i'r uned fod o dan bwysau ariannol pellach a pha un ai a disgwylir i HDP gynyddu ei gyfraniad. Dywedodd y CC y disgwylir pwysau parhaus a fyddai'n effeithio ar HDP. Y gred yw y bydd y swm yn gymharol fach ac roedd y mater yn cael ei fonitro'n agos.

Gofynnodd y PSA am ragor o fanylion am y diweddariad IP999.

**Cam Gweithredu: Darparu mwy o fanylion am y diweddariad IP999 i SCHTh erbyn diwedd Ionawr**

Holodd y PSA ynghylch y rheswm dros y cynnydd o 200 uned o ran caffael dyfeisiau llaw a pha un ai a oedd hyn yn ymwneud â'u darparu i SCCH. Dywedodd y CC nad oedd SCCH wedi derbyn y dyfeisiau eto, ond roedd yr unedau ychwanegol wedi'u rhoi i swyddogion gweithredol yn seiliedig ar y manteision a brofwyd eisoes a'u bod o fewn y gyllideb gychwynnol. Cafwyd trafodaeth ynghylch cyflwyno dyfeisiau symudol i SCCH a'r Heddlu Gwirfoddol (HG). Dywedodd y PG bod ymagwedd drefnus yn cael ei gweithredu ac y byddai rhinweddau cyhoeddi dyfeisiau i SCCH a HG yn cael eu hasesu gan y tîm prosiect. Gofynnodd y CHTh am ystyried cyhoeddi i HG ochr yn ochr â SCCH. Dywedodd y PG ei fod yn disgwyl i SCCH dderbyn y dyfeisiau cyn hir a bod angen ystyried eu cyhoeddi i HG yn ofalus mewn perthynas â'u lefel ymrwymiad.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i roi statws cyfredol y cynllun cyflwyno plismona symudol i'r CHTh**

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/01/2016 | | |
|---|---|---|
| Rhif Cam Gweithredu | Crynodeb | I'w symud yn ei flaen gan |
| **PAB 293** | **Yr Heddlu i rannu'r proffil galw, ac asesiad o'r effaith ar gamau gweithredu a gymerwyd i leihau gofynion a nodwyd, â'r CHTh erbyn diwedd Ionawr** | **PG** |
| **PAB 294** | **Yr Heddlu i roi cynlluniau prosiectau gweithredol manwl i'r CHTh sy'n tanategu'r cynllun arbedion Gwario'n Ddoeth erbyn diwedd Ionawr** | **CC** |
| **PAB 295** | **Adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad o ddalfeydd i'r Bwrdd Plismona erbyn diwedd Mawrth** | **PG** |
| **PAB 296** | **Yr Heddlu i ddarparu atebion i gwestiynau mewn perthynas â maint a phatrymau seiberdroseddu a newid mewn achosion sy'n weddill erbyn diwedd yr wythnos** | **PG** |
| **PAB 297** | **Darparu incwm a geir drwy erlyniadau troseddau traffig a arweinir gan yr heddlu a chasglu arian sy'n ddyledus i SCHTh erbyn diwedd Ionawr** | **CC** |
| **PAB 298** | **Darparu rhestr o leoliadau Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned cyfredol a rhai posibl i'r CHTh erbyn diwedd Ionawr** | **PG** |
| **PAB 299** | **Yr Heddlu i roi cynllun manwl erbyn diwedd Ionawr o brosiectau Uned Plismona'r Ffyrdd ar gyfer gwario £181,000 o arian dros ben o ran y cynllun Y Ffordd i Ddiogelwch** | **CC** |
| **PAB 300** | **Darparu mwy o fanylion am y diweddariad IP999 i SCHTh erbyn diwedd Ionawr** | **MMS** |
| **PAB 301** | **Yr Heddlu i roi statws cyfredol y cynllun cyflwyno plismona symudol i'r CHTh** | **CC** |